## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU:Y PWYLLGOR ARCHWILIO

**Adroddiad 02-03 - Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 25 Chwefror 2003 yn unol ag adran 102(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998.**

# Osiris: Contract PFI ar gyfer darparu technoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 1 |
| Cost Osiris | 2 |
| Defnyddioldeb ac ansawdd y gwasanaethau | 6 |
| Y Contract PFI ag Osiris | 8 |
| Crynodeb o'r Argymhellion | 11 |
| Sylwadau Clo | 13 |

ATODIADAU

Atodiad A: Trafodion perthnasol y Pwyllgor - Cofnodion tystiolaeth (Iau, 21 Tachwedd 2002)

Atodiad B - Llythyr oddi wrth Syr John Shortridge, Clerc y Pwyllgor Archwilio, 20 Rhagfyr 2002

Atodiad C - Y Pwyllgor Archwilio

## Rhagarweiniad

1. Yn yr adroddiad, byddwn yn edrych sut y bu i'r Swyddfa Gymreig gaffael system gyfrifiadurol *Osiris (Office Systems and Infrastructure Review and Infrastructure Strategy)* a'i hymestyn wedi hynny i gwrdd ag anghenion Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dyfarnwyd contract menter cyllid preifat (PFI) saith mlynedd i Siemens Business Services (SBS) gan y Swyddfa Gymreig ym mis Ionawr 1997 i ddarparu Osiris. Darparai rwydwaith meddalwedd ar gyfer holl waith y Swyddfa Gymreig. Dyma oedd y PFI gyntaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig.

2. Gyda dyfodiad datganoli a throsglwyddo swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol, wynebai swyddogion y Cynulliad her unigryw. Bu i natur yr angen am dechnoleg gwybodaeth newid a chynyddu. Oherwydd prinder amser i ddarparu'r gwasanaethau ychwanegol, a'r ffaith nad oedd sicrwydd ble byddai cartref terfynol y Cynulliad, penderfynodd y Cynulliad ymestyn contract yr SBS i ateb ei ofynion ychwanegol.

3. Mae contract Osiris yn seiliedig ar godi tâl misol am bob defnyddiwr sy'n defnyddio'r rhwydwaith. Am amrywiaeth o resymau, mae nifer y defnyddwyr wedi codi'n sylweddol ers arwyddo'r contract. Amcangyfrifwyd o ganlyniad ym mis Hydref 1997 mai £20.9 miliwn fyddai cost y contract am ei oes. Erbyn trosglwyddo swyddogaethau i'r Cynulliad, roedd wedi codi i £26.1 miliwn. Ac wedi ymestyn y contract, cododd yr amcangyfrif i £46.2 miliwn a'r amcangyfrif diweddaraf yw £64.4 miliwn.

4. Daw contract Osiris i ben ym mis Ionawr 2004. Mae'r Cynulliad yn cynnal cystadleuaeth am dendr i ddarparu ei system newydd. Enw'r system honno yw Merlin. Dyfernir contract Merlin ym mis Gorffennaf 2003, a bydd cyfnod pontio o chwe mis cyn cychwyn y contract ym mis Ionawr 2004. Amcan yr holl argymhellion yn yr adroddiad hwn yw bod y Cynulliad yn dysgu'r gwersi o'i brofiadau ag Osiris a'i fod yn cael y gorau o'i gontract â Merlin.

5. Ar sail adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cenedlaethol Cymru [1], clywsom dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, yr Ysgrifennydd Parhaol, a ategwyd gan Mr David Richards, Prif Swyddog Cyllid, Mr Nigel Finlayson, Pennaeth yr Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth, a Mr Bryan Mitchell, Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Rheoli Busnes a Gwybodaeth. Mae'r adroddiad yn ystyried cost contract Osiris, ei

---

[1] Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Osiris: the PFI contract for information technology in the National Assembly for Wales*, a gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Hydref 2002.

ddefnyddioldeb ac ansawdd y gwasanaethau. Mae'n ystyried hefyd y contract PFI a'r ffordd y cafodd ei reoli.

## Cost Osiris

### Nifer y defnyddwyr

6. Gan mai'r dylanwad mwyaf ar gost y contract ag Osiris oedd nifer y defnyddwyr, dyna oedd y risg mwyaf i'r Cynulliad. Byddai mwy o ddefnyddwyr na'r rhagolygon yn cosbi'r Swyddfa Gymreig/Cynulliad a byddai gostyngiad yn cosbi SBS. Er hynny, roedd yr amcangyfrifon o'r galw am y gwasanaeth yn anghywir bob tro, o ddechrau'r contract ag Osiris. Er enghraifft, ar ddechrau'r contract, yn ôl astudiaeth y Swyddfa Gymreig o'r nifer a fyddai'n defnyddio'r system, ni ragwelwyd y byddai yna fwy na 1,875 o ddefnyddwyr. Ond, erbyn Mawrth 1999, roedd yna 2,361 o ddefnyddwyr.[2] Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym bod y rhagolygon cynnar hyn yn seiliedig ar y disgwyl y byddai'r Swyddfa Gymreig yn lleihau.[3] Rydym yn hynod ofidus nad oedd yr arfarniad buddsoddi i bob golwg wedi meddwl efallai y byddai yna ddatblygiadau gwleidyddol ehangach, fel datganoli, er mai dyna oedd polisi'r brif wrthblaid ar y pryd.[4] Rydym yn sylweddoli sensitifrwydd materion o'r fath, ond wrth roi contractau tymor hir, mae'n angenrheidiol ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Mae profiad wedi dysgu'r wers honno i ni.

7. Pan ddaeth hi'n amser i ymestyn y contract i gwrdd ag anghenion y Cynulliad newydd, camp i'r swyddogion oedd ceisio rhagweld nifer y defnyddwyr.[5] Wrth drafod y contract estynedig, tybiwyd y byddai nifer y defnyddwyr yn codi i uchafswm o 2,875 yn Ebrill 2002 ond wedi hynny yn cwympo 5 y cant y flwyddyn. Ond erbyn Medi 2002, roedd nifer y defnyddwyr wedi taro'r 4,062.[6] Rhagolygon cyfeiliornus swyddogion y Cynulliad oedd y rheswm pennaf pam fod costau Osiris wedi codi 39 y cant yn uwch na'r rhagolygon adeg ymestyn y contract. Dywedodd y Prif Ysgrifennydd mai prif ffocws y trafodaethau am y contract oedd cydymffurfio â rheoliadau caffael Ewropeaidd.[7] Rydym yn cydnabod bod angen cydymffurfio ond er hynny, yn ein barn ni, dylai'r Cynulliad fod wedi rhagweld y gallai niferoedd godi.

---

[2] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 2.15, 2.19 a 2.21
[3] Cwestiynau 15-19
[4] Cwestiynau 3-5
[5] Cwestiwn 111; Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.25
[6] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.23
[7] Cwestiynau 113-114

8. Wrth drafod ymestyn y contract ag Osiris, defnyddiodd swyddogion y Cynulliad 'astudiaeth sensitifrwydd' i fesur lefelau elw, ond nid y dylanwad mwyaf ar y costau - sef nifer y defnyddwyr. Hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer y defnyddwyr eisoes wedi codi'n sylweddol uwch na'r rhagolygon hyd yn oed cyn datganoli.[8] Pe baent wedi cynnal astudiaeth 'sensitifrwydd' o nifer defnyddwyr, byddent wedi gweld effaith bosibl cynnydd yn nifer y defnyddwyr,[9] ac mae'n drueni mawr na wnaethant gynnal astudiaeth o'r fath pan gafodd y contract ei ymestyn. **Rydym yn argymell bod swyddogion y Cynulliad yn defnyddio dulliau cynllunio senario ac astudio sensitifrwydd cadarn wrth roi contractau mawr, gan ystyried cymaint o bosibiliadau a datblygiadau gwleidyddol posibl ag y medrir. Dylid seilio penderfyniadau ar ba mor debygol yw'r posibiliadau hyn a'u heffaith ariannol.**

9. Mae'n bosib y byddai swyddogion, pe bai astudiaeth sensitifrwydd o'r fath wedi'i chynnal, wedi gofyn am fecanwaith, fel disgownt am ddefnydd mawr, i ddiogelu'r Cynulliad rhag cynnydd yn nifer y defnyddwyr.[10] Dywedodd y Prif Ysgrifennydd wrthym nad oedd wedi gofyn am fecanwaith o'r fath am y byddai, meddai, wedi golygu newid sylfaenol i'r contract.[11] Gan na ofynnwyd am gyngor cyfreithiol ar oblygiadau cynnwys mecanwaith prisio o'r fath yn y contract, nid yw'r ddadl y byddai wedi golygu newid sylfaenol i'r contract yn ein hargyhoeddi. Yng nghyd-destun y contract arfaethedig gyda Merlin, **rydym yn argymell fod contractau yn y dyfodol yn cynnwys mecanweithiau i ddiogelu'r Cynulliad i ryw raddau rhag y prif risgiau.**

## Elw SBS

10. Seiliwyd prisiau SBS ar gyfer y contract estynedig ar 2,875 o ddefnyddwyr, sef amcangyfrif y Cynulliad. Gyda'r cynnydd i 4,062 o ddefnyddwyr, mae SBS wedi cynyddu ei elw.[12] Dywedodd tystion wrthym bod amcangyfrifon y Cynulliad o elw contract Osiris i SBS dros gyfnod y contract hyd Ionawr 2004 yn gyson â normau'r farchnad am gontractau o'r math hwn - o fewn rhychwant o 10 i 15 y cant.[13] Mae trefniadau i rannu elw yn bethau cyffredin mewn contractau mwy modern. Maent yn un o'r mecanweithiau posibl i leihau risg, y byddwn yn eu

---

[8] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.26 Cwestiwn 117
[9] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.27
[10] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.27
[11] Cwestiynau 115-117
[12] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.35
[13] Cwestiynau 135-136

trafod yn y paragraff olaf, ac yn un y byddai'r ddau bartner wedi gallu manteisio arno i rannu'r cynnydd annisgwyl yn yr elw.

11. Dywedodd y Prif Ysgrifennydd wrth y Pwyllgor na allai roi manylion asesiad y Cynulliad beth fyddai elw tebygol SBS gan fod y trafodaethau gyda Merlin yn ei gwneud yn hanfodol cadw unrhyw wybodaeth fasnachol yn gyfrinachol.[14] Afraid dweud, ni fyddai'r Pwyllgor byth yn ei roi ei hun mewn sefyllfa lle gallai beryglu gallu'r Cynulliad i sicrhau'r fargen orau bosibl ar gyfer contract yn y dyfodol. Serch hynny, mae'r enghraifft hon yn codi egwyddor pwysig. Dylai'r ffigurau perthnasol, cyhyd ag sy'n bosibl, fod ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Rydym felly yn croesawu cefnogaeth lawn yr Ysgrifennydd Parhaol i'r egwyddor hwnnw.[15] Yn dilyn ein cyfarfod, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi mwy o fanylion elw SBS yn gyfrinachol i Gadeirydd y Pwyllgor. **Rydym yn argymell bod contractau yn y dyfodol yn fwy agored am elw'r sector preifat ac yn cynnwys trefniadau pendant i rannu elw.**

## Ymestyn contract SBS

12. Er nad oedd y contract gwreiddiol wedi caniatau ar gyfer y cynnydd yn nifer y defnyddwyr, roedd yn dal yn fargen dda i'r Swyddfa Gymreig. Datganoli ddaeth â sialensau unigryw yn ei sgil. Rydym yn derbyn bod y Cynulliad bryd hynny yn gweithio o dan amgylchiadau anodd iawn ac nad oedd ganddo fawr o ddewis ond ymestyn ei gontract ag SBS i gael y gwasanaethau ychwanegol. Er mwyn cael y gwasanaethau mewn pryd, erbyn dechrau'r Cynulliad, bu'n rhaid i SBS ddechrau ar y gwaith cyn y cafwyd cytundeb ar bris y gwasanaethau.[16] Canlyniad hyn oedd cryfhau sefyllfa SBS gan arwain at brofiad eithaf 'deifiol', yng ngeiriau'r Ysgrifennydd Parhaol.[17]

13. I'r perwyl hwn, rydym am ganmol swyddogion am drafod 34 y cant o ostyngiad yng nghost y gwasanaethau ychwanegol, o gynnig gwreiddiol SBS o £29 miliwn, i £19.2 miliwn. Hynny heb aberthu'r addewid y byddai'r gwasanaethau ychwanegol yn eu lle erbyn agor y Cynulliad.[18] Dywedodd y tystion, un ar ôl y llall, mai dyma'r canlyniad gorau oedd yn bosibl o dan yr amgylchiadau.[19] Fodd bynnag, gwelwn fod model costau'r contract estynedig yn cynnwys nifer o gostau nad oeddynt yn rhan o gynnig gorau a therfynol SBS ar gyfer y

---

[14] Cwestiwn 144
[15] Cwestiwn 146
[16] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.4 i 3.6 a Ffigur 7
[17] Cwestiynau 77-78
[18] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.14 a 3.20
[19] Cwestiynau 64,68 a 76

contract gwreiddiol. Mae'r costau hyn yn cynnwys eitemau fel cost uwch-reolwyr SBS yn eu prif swyddfa a chost taliadau bonws i staff, elw rhagolwg uwch ac amodau mwy ffafriol ar gyfer chwyddiant.[20] Nid oedd y contract estynedig felly yn fargen cystal â hynny i'r Cynulliad, er efallai hwnnw oedd y gorau y gellid ei gael.

14. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd i'r Cynulliad gyfrannu £377,000 tuag at y pris y gofynnodd SBS amdano i adnewyddu'r dechnoleg (gwella'r caledwedd a'r meddalwedd), eitem a oedd eisoes yn y contract gwreiddiol, fel rhan o'r tâl ar ddefnyddwyr. Bu'n rhaid talu'r tâl ychwanegol am i neb edrych ar amodau cynnig gorau a therfynol SBS (a oedd yn caniatau i'r Cynulliad ddweud pryd i adnewyddu'r dechnoleg) yng nghontract Osiris.[21] Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol i hyn rwystro swyddogion y Cynulliad rhag gofyn am adnewyddu'r dechnoleg ar adeg penodol. Oherwydd y pwysau i sicrhau bod holl ddefnyddwyr Osiris yn defnyddio'r un system erbyn diwrnod cynta'r Cynulliad, nid oedd gan y Cynulliad fawr o ddewis ond cyfrannu at gost adnewyddu'r dechnoleg, er bod y gost eisoes yn rhan o'r tâl ar ddefnyddwyr.[22] **Rydym yn argymell bod swyddogion y Cynulliad a'u cynghorwyr proffesiynol yn gofalu bod holl amodau cynnig gorau a therfynol y cyflenwr yn cael eu hadlewyrchu yn y contract terfynol.**

15. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol i fforddadwyedd fod yn ystyriaeth bwysicach i'r tîm trafod na gwerth am arian. Y prif reswm am hyn oedd nad oedd gan y contract y mecanweithiau sydd i'w cael mewn contractau mwy diweddar, fel meincnodi a phrofion gorfodol ar y farchnad ar draul y cyflenwr.[23] Byddai amodau o'r fath wedi helpu swyddogion i farnu a oedd prisiau SBS yn rhesymol neu beidio. Yr unig gadarnhad y llwyddodd y Cynulliad i'w gael oedd llythyr byr gan gyflenwr SBS yn dweud bod y costau yn gymharol â normau'r farchnad.[24] Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol bod meincnodi costau'n anodd heb fecanweithiau contractyddol gorfodol, er iddo ddweud y bu i'r tîm trafod ystyried materion gwerth am yr arian gorau a fedrent.[25] **Rydym yn argymell bod gan gontractau yn y dyfodol fecanweithiau cadarn ar gyfer sicrhau gwerth am arian er mwyn i gostau allu cael eu meincnodi a'u dilysu'n allanol. Dylai unrhyw amodau i newid y contract ymgorffori'r mecanweithiau hyn hefyd. Er yn cydnabod bod fforddadwyedd yn**

---

[20] Atodiad B (Llythyr oddi wrth Syr Jon Shortridge at Glerc y Pwyllgor Archwilio, 20 Rhagfyr 2002); Adroddiad AGW, Ffigur 9

[21] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, ffigur 8

[22] Cwestiynau 97-100

[23] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.15

[24] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, ffigur 9

**bwysig, rydym yn argymell hefyd y dylid rhoi pwys ar werth am arian wrth drafod contractau**.

16. Roeddem yn bryderus am gost y ddesg gymorth 'ar-ôl-oriau' i Aelodau'r Cynulliad. Yn ôl yr hyn a ddywed Archwiliwr Cyffredinol, roedd pob galwad i bob pwrpas yn costio £6,000.[26] Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol mai'r rheswm am hyn oedd am mai dim ond dwy alwad a ddaeth i law. Ychwanegodd fod cyfnod treialu'r gwasanaeth yn dod i ben am nad oes digon o alw amdano.[27]

## Rheoli'r gyllideb

17. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol mai ychydig iawn o reolaeth a fu ar gyllideb gyffredinol Osiris. Mae'r gyllideb wastad wedi cael ei chadw'n ganolog, sy'n golygu y gallai adrannau eraill yn y Cynulliad recriwtio staff heb ystyried cost ychwanegol defnyddwyr newydd.[28] Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei dystiolaeth y gellid bod wedi rheoli'r gwariant ar Osiris yn well a dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'n dirprwyo cyllideb Osiris i grwpiau ac is-adrannau yn Ebrill 2003.[29] Gwnaethom groesawu'r cynnig hwn gan fod yn rhaid wrth atebolrwydd cyllidol er mwyn rheoli gwariant yn well mewn sefyllfa fel un Osiris sy'n dibynnu ar y galw. **Rydym yn argymell fod y Cynulliad yn cymryd camau i fod yn fwy atebol am ei wariant ar Osiris a'i gontract olynnol er mwyn i'r rheini sy'n gyfrifol am recriwtio staff yn y Cynulliad gymryd holl gostau swydd i ystyriaeth, gan gynnwys costau technoleg gwybodaeth.**

## Defnyddioldeb ac ansawdd y gwasanaethau

18. Rydym am ategu canmoliaeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r Swyddfa Gymreig/Cynulliad am roi'r system Osiris wreiddiol ar waith mor gyflym ac am gael y gwasanaethau ychwanegol o dan y contract estynedig yn barod mewn pryd ar gyfer agor y Cynulliad.[30] Testun balchder inni hefyd yw bod system y Cynulliad Cenedlaethol yn fwy blaengar na'r hyn a geir mewn llawer i senedd a chynulliad arall.[31]

---

[25] Cwestiynau 93 a 96
[26] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.33
[27] Cwestiwn 148
[28] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 4.25
[29] Cwestiynau 180-181
[30] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.20
[31] Cwestiwn 108

19. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb uniongyrchol yn ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan gontract Osiris. Yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol, mae'r defnyddwyr yn teimlo bod elfennau'r system yn gweithio'n dda ar y cyfan.[32] Roedd y rhwydwaith ar gael yn fwy na'r hyn oedd yn ofynnol o dan y contract - o ganlyniad talwyd bonws i SBS yn un deg naw o'r dau ddeg dau chwarter hyd yma.[33] Syndod inni oedd bod taliadau bonws yn cael eu talu mor reolaidd a gwnaethom bwyso ar dystion i esbonio hyn. Gwnaethant gadarnhau i'r system weithio'n well wedi diweddaru'r dechnoleg, ond ni chafodd safonau SBS eu diweddaru er gwaetha'r ffaith bod caledwedd a meddalwedd mwy dibynadwy wedi'u prynu. Dywedodd Pennaeth yr Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth fod contractau'n cael eu rheoli lawer yn well erbyn hyn ers contract gwreiddiol Osiris.[34] Wrth ystyried telerau Merlin, **rydym yn argymell fod y contract yn cynnwys cymal torri er mwyn adolygu'r drefn credydu gwasanaeth bob tro y bydd y dechnoleg yn cael ei hadnewyddu.**

20. Er bod y defnyddwyr ar y cyfan yn fodlon â'r system, yn ôl arolygon yr Archwilydd Cyffredinol, roedd y rheini oedd yn cysylltu â'r rhwydwaith o bell - Aelodau'r Cynulliad a'u staff oedd yn gweithio o'u cartrefi neu swyddfeydd eu hetholaeth - ymhell o fod yn fodlon gan nad oedd y system yn gweithio'n ddigon cyflym.[35] Yn wir, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y broblem yn fwgan personol iddo.[36] Yr hyn sydd i gyfrif am arafwch y system i ddefnyddwyr-o-bell yw ansawdd y llinellau ffôn yng Nghymru, sydd y tu allan i gwmpas contract Osiris. Fodd bynnag, fel y gwnaethom ei esbonio wrth glywed tystiolaeth, gan fod Aelodau'n gweithio oddi ar safle'r Cynulliad bron bob dydd Llun a dydd Gwener, mae'n hanfodol er mwyn iddyn nhw allu rhoi gwasanaeth priodol i'w hetholwyr, eu bod yn gallu cael at eu papurau'n rhwydd ar eu cyfrifiaduron.[37] Wrth ymateb i'n pryderon, cadarnhaodd Pennaeth yr Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth y dylai rhaglen Band Eang Cymru, law yn llaw â system data llais Merlin, arwain at welliant sylweddol yn y gwasanaeth i'r defnyddiwr-o-bell.[38] Mae'r Pwyllgor am bwysleisio mor bwysig yw cyflymu'r gwasanaeth o bell, ac **rydym yn argymell bod cyflymu cyswllt defnyddwyr-o-bell â rhwydwaith y Cynulliad yn un o flaenoriaethau pennaf y contract â Merlin.**

---

[32] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 4.2 i 4.12
[33] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 4.2
[34] Cwestiwn 163
[35] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 4.4
[36] Cwestiwn 157
[37] Cwestiynau 158-162
[38] Cwestiynau 155-157

21. Diddorol oedd gweld datblygiad diweddar yr *Information Technology Skills Academy* ac rydym yn croesawu eu hagwedd flaengar at hyfforddiant, yn enwedig eu gallu i deilwra hyfforddiant yn ôl anghenion penodol yr unigolyn.[39] Y peth nodedig am y fenter yw iddi darddu yn y Cynulliad a bod y contract yn ddigon hyblyg i ganiatau rhywfaint o droi cefn ar hyfforddiant traddodiadol o blaid defnyddio'r Academy, a hynny heb gost ychwanegol.[40]

22. Testun peth gofid inni yw bod y Cynulliad yn talu'n ychwanegol i SBS i ymateb yn gynt i gais am wasanaeth, o ugain i bymtheng niwrnod. Y rheswm pam fod yr ymateb i geisiadau am wasanaeth mor araf yw am na wnaeth y Cynulliad, pan fu'n trafod telerau ymestyn y contract, ragweld y byddai cymaint o geisiadau am wasanaeth.[41] Dywedodd Pennaeth yr Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth mai deuddeng niwrnod yw'r amser ymateb ar hyn o bryd. Yn ein barn ni, mae hyn yn rhy hir a diddorol oedd clywed gan dystion mai diffyg manylder yn y cais am wasanaeth gan y rheolwr llinell yw'r rheswm yn aml am yr oedi.[42] **Rydym yn argymell fod y Cynulliad yn cymryd camau i leihau'r oedi wrth ymateb i geisiadau am wasanaeth, gan gadw mewn cof y galw tebygol o dan Merlin ac ystyried trefn briodol i'w symbylu i ymateb i geisiadau'n gyflym.**

## Contract PFI Osiris

### Defnyddio PFI a digonolrwydd y contract

23. Roeddem am wybod beth oedd sail ariannol y penderfyniad i fynd am PFI yn hytrach na threfn gaffael gonfensiynol. Dywed yr Archwilydd Cyffredinol nad yw staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi gweld unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o fodolaeth 'Cymharydd Sector Cyhoeddus' i gymharu PFI o ran rhoi gwerth am arian â'r drefn gaffael gonfensiynol.[43] Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi ysgrifennu at y Pwyllgor i esbonio nad oedd rheidrwydd cyfreithiol arnynt yn ôl Llyfr Gwyrdd y Trysorlys i ddefnyddio 'Cymharydd Sector Cyhoeddus' pan benderfynwyd ar y PFI fel y fecanwaith ariannu yn mis Ionawr 1996.[44] Serch hynny, ar y pryd, y farn gyffredin oedd bod y 'Cymharydd Sector Cyhoeddus' yn arfer gorau, a thestun syndod inni oedd bod y penderfyniad i fynd am PFI wedi'i wneud heb gloriannu'r manteision a'r anfanteision yn fanwl i gadarnhau bod y PFI yn rhoi mwy o

---

[39] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 4.9 i 4.10
[40] Cwestiwn 168
[41] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.30 i 3.32
[42] Cwestiynau 121-122 a 125-132
[43] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.8

werth am arian na'r drefn gaffael draddodiadol. Dywedodd Pennaeth yr Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth y byddai'r arfarniad buddsoddi o Merlin yn ystyried yr holl gostau dros gyfnod y contract cyfan, nid o safbwynt y 'Cymharydd Sector Cyhoeddus' yn unig. Hynny am fod gwasanaethau technoleg gwybodaeth o dan Osiris wedi'u contractio o'r tu allan a'i bod felly yn amhosibl cymharu cost eu darparu'n uniongyrchol.[45] **Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn cloriannu manteision ac anfanteision yn drylwyr yr opsiynau ar gyfer ariannu contract Merlin, gan ofalu bod y penderfyniad terfynol yn rhoi gwerth am arian.**

24. P'un a fu'r PFI yn llwyddiannus neu beidio, dywed tystion mai prif fantais y PFI oedd bod y system wedi gallu dechrau'n gynt. Roedd system wreiddiol Osiris yn barod mewn naw mis, ond o dan y drefn gonfensiynol, oherwydd diffyg cyfalaf, byddai'r system wedi gorfod cael ei chyflwyno bob yn gam dros gyfnod o dair neu bedair blynedd.[46] Pan gafodd y contract ei ymestyn, cafwyd y gwasanaethau ychwanegol yn barod mewn pryd ar gyfer agor y Cynulliad - ac fel yr ydym eisoes wedi'i ddweud, roedd hynny'n dipyn o orchest. Mantais arall y PFI oedd trosglwyddo risg, hynny yn nyddiau cynnar y contract,[47] a harneisio arbenigedd y sector preifat i ddarparu yr hyn oedd yn ôl tystion ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, yn wasanaethau technoleg gwybodaeth o safon uchel.[48]

25. Dywedodd tystion wrthym fod y problemau pennaf ag Osiris yn codi, nid oherwydd y PFI fel y cyfryw, ond o'r ffaith bod y contract ei hun mor anhyblyg a hen ffasiwn. Y contract hwn ag Osiris oedd y cytundeb PFI cyntaf am ddarparu technoleg gwybodaeth yn y Deyrnas Unedig.[49] Er bod y contract a'r bartneriaeth rhwng y Cynulliad ac SBS yn ddigon hyblyg i allu ymestyn y contract i ysgwyddo gofynion ychwanegol y Cynulliad, nid oedd amodau'r contract yn ddigon hyblyg mewn meysydd fel meincnodi, rhannu elw a phrisio. Amrwd braidd oedd y cydbwysedd rhwng risg a gwobr, fel y'i mynegwyd gan y fecanwaith dalu - a chan nad oedd yn bosibl cysylltu'r hyn a dalwyd â chanlyniadau, nid oedd fawr o sbardun i Osiris newid ei ffyrdd.[50] Cyfeiriodd tystion at welliant sylweddol yn y ffyrdd mae PFIs erbyn hyn yn cael eu rhedeg, ac at ganllawiau Swyddfa Fasnach Llywodraeth. Addawyd wrth y

---

[44] Llythyr oddi wrth Syr Jon Shortridge at Glerc y Pwyllgor Archwilio, 20 Rhagfyr 2002); Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.6
[45] Cwestiwn 27
[46] Cwestiwn 24
[47] Cwestiwn 8, Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.12-2.14 a Ffigur 3
[48] Cwestiwn 157, Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 4.2 i 4.12
[49] Cwestiwn 13
[50] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 4.14 i 4.17

Pwyllgor y defnyddid y canllaw ym mhob cam o'r broses gyda Merlin, os mai'r llwybr PFI a ddilynir.[51]

26. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor eu bod am i'r contract â Merlin fod yn fwy soffistigedig, i gynnwys mwy o brosiectau i wella busnes, ac o bosibl lif talu unigol ar gyfer canlyniadau busnes penodol.[52] Rydym yn croesawu'r addewid y bydd y contract mwy hyblyg y dylai fod yn bosibl ei gael â Merlin, yn rhoi mwy o gymhellion i fentro ar hyd trywyddau newydd.

## Rheoli'r contract

27. Rheolaeth dda ar gontractau a phartneriaethau effeithiol yw hanfodion y cytundebau PFI mwyaf llwyddiannus. Rhaid i bartneriaethau o'r fath fod yn ymarferol a hefyd weithio ar dop y sefydliadau dan sylw, gydag uwch-swyddogion yn cyfathrebu ac yn cysylltu â'i gilydd yn rheolaidd am gyfleoedd i ddatblygu a gwella'r bartneriaeth. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol bod y bartneriaeth ag Osiris yn gweithio'n dda iawn ar lefel weithredol ond ddim cystal ar y lefel strategol.[53] Dywedodd tystion wrthym mai'r rheswm am hyn oedd bod yr uwch-swyddogion wedi treulio cymaint o amser yn trafod ymestyn y contract, hynny yn fuan wedi cadarnhau'r contract gwreiddiol. A hefyd y pwysau i sicrhau bod y gwasanaethau ychwanegol yn barod mewn pryd ar gyfer agor y Cynulliad. Cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol y gwendid hwn a rhoi addewid y byddai partneriaeth ar lefel strategol yn flaenoriaeth i Merlin. Bydd yr Ysgrifennydd Parhaol ei hun yn cyd-gadeirio pwyllgor partneriaeth.[54] **Rydym yn argymell bod y berthynas weithredol effeithiol rhwng y Cynulliad a'r contractiwr yn parhau gyda Merlin, a bod perthynas strategol fwy effeithiol yn ei chryfhau.**

28. Diddorol oedd yr astudiaeth achos yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar sut y bu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sefydlu grwp defnyddwyr i'w helpu i reoli ei gontract technoleg gwybodaeth.[55] Cadarnhaodd Pennaeth yr Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth bod swyddogion yn edrych ar esiamplau cyrff eraill i weld sut maen nhw'n cael defnyddwyr i gymryd rhan.[56] Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd ei fod am i Merlin roi gwasanaethau llawer mwy gwahaniaethol i allu diwallu'n well anghenion defnyddwyr

---

[51] Cwestiynau 27, 51 a 183
[52] Cwestiwn 173
[53] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 4.19 i 4.24
[54] Cwestiwn 169
[55] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, ffigur 13
[56] Cwestiwn 178

unigol am dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Roedd y gwasanaeth 'unffurf, unsiâp' o dan Osiris yn rhwystro'r Cynulliad rhag cael y gorau o'r dechnoleg.[57] **Rydym yn argymell bod y contract â Merlin yn datblygu gwasanaethau mwy gwahaniaethol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr unigol, a'u bod yn chwilio am ffyrdd o fewn y bartneriaeth i glywed barn defnyddwyr, er mwyn darparu cynnyrch sy'n cwrdd â'u hanghenion yn well.**

29. Ystyriaeth bwysig arall wrth reoli contract yn effeithiol yw sut i ddatblygu fframwaith cadarn ar gyfer cloriannu ac adolygu manteision ac anfanteision y contract. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd fframwaith o'r fath yn bod ar gyfer y contract ag Osiris.[58] Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd yna broses reolaidd i adolygu a chloriannu, a chafodd yr unig adroddiad gan Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad ei ohirio, er y caiff ei gyhoeddi cyn arwyddo'r contract â Merlin.[59] Rydym yn cytuno â'r Ysgrifennydd Parhaol bod y ffaith na fu trefn adolygu o dan Osiris yn faen tramgwydd mawr ac **rydym yn argymell bod proses gloriannu ac adolygu yn cael ei datblygu o'r dechrau, fel rhan annatod o drefniadau'r Cynulliad ar gyfer rheoli'r contract â Merlin.**

30. Gwelsom hefyd o ddarllen adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol mai ychydig iawn o ddefnydd a wnaed gan y Cynulliad o'r cymal yn y contract ag Osiris ar gadw cyfrifon agored.[60] Er ein bod yn sylweddoli bod hyn ond yn golygu bod y Cynulliad yn cael gweld llyfrau SBS ac nad oes iddo arwyddocâd pellach, fel rhannu elw neu grafangu yn ôl, pe bai'r Cynulliad wedi manteisio arno, byddai wedi cyfrannu at feithrin diwylliant mwy agored. Byddai swyddogion y Cynulliad wedi gallu cynhyrchu ffigurau cywirach am elw SBS (paragraffau 10 ac 11 uchod). Rydym yn cydnabod, fel ag y dywedodd tystion wrthym, bod hwn yn faes sy'n dangos mor hen yw'r contract ag Osiris.[61] Er hynny, yn ein barn ni, mae cadw cyfrifon agored yn hanfodol mewn partneriaeth fel hon â'r sector preifat, ac **rydym yn argymell bod cyfrifon agored yn cael eu defnyddio yn y contract â Merlin, wedi'u cysylltu â mecanweithiau i rannu elw. Yn ein barn ni, mae cadw cyfrifon agored a'u cysylltu â mecanweithiau i rannu elw yn hanfodol i gael y gorau o gontract PFI.**

## Crynodeb o'r Argymhellion

31. Yn sgil y canfyddiadau a'r casgliadau hyn, rydym ni yn argymell y canlynol:

---

[57] Cwestiynau 77,167 a 193
[58] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 4.27 i 4.28
[59] Cwestiwn 182
[60] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 4.29 i 4.33
[61] Cwestiwn 183

i) bod swyddogion y Cynulliad yn defnyddio dulliau cynllunio senario ac astudio sensitifrwydd cadarn wrth roi contractau mawr, gan ystyried cymaint o bosibiliadau a datblygiadau gwleidyddol posibl ag y medrir. Dylid seilio penderfyniadau ar ba mor debygol yw'r posibiliadau hynny ac ar eu heffaith ariannol.

ii) bod contractau yn y dyfodol yn cynnwys mecanweithiau i ddiogelu'r Cynulliad i ryw raddau rhag y prif risgiau.

iii) bod contractau yn y dyfodol yn fwy agored am elw'r sector preifat ac yn cynnwys trefniadau pendant i rannu elw.

iv) bod swyddogion y Cynulliad a'u cynghorwyr proffesiynol yn gofalu bod holl amodau cynnig gorau a therfynol y cyflenwr yn cael eu hadlewyrchu yn y contract terfynol.

v) bod gan gontractau yn y dyfodol fecanweithiau cadarn ar gyfer sicrhau gwerth am arian er mwyn i gostau allu cael eu meincnodi a'u dilysu'n allanol. Dylai unrhyw amodau i newid y contract ymgorffori'r mecanweithiau hyn hefyd. Er yn cydnabod bod fforddadwyedd yn bwysig, rydym yn argymell hefyd y dylid rhoi pwys ar werth am arian wrth drafod contractau.

vi) fod y Cynulliad yn cymryd camau i fod yn fwy atebol am ei wariant ar Osiris a'i gontract olynnol er mwyn i'r rheini sy'n gyfrifol am recriwtio staff yn y Cynulliad gymryd holl gostau swydd i ystyriaeth, gan gynnwys costau technoleg gwybodaeth.

vii) fod y contract â Merlin yn cynnwys cymal torri er mwyn adolygu'r drefn credydu gwasanaeth bob tro y bydd y dechnoleg yn cael ei hadnewyddu.

viii) fod cyflymu cyswllt defnyddwyr-o-bell â rhwydwaith y Cynulliad yn un o brif flaenoriaethau'r contract â Merlin.

ix) fod y Cynulliad yn cymryd camau i leihau'r oedi wrth ymateb i geisiadau am wasanaeth, gan gadw mewn cof y galw tebygol o dan Merlin ac ystyried trefn briodol i'w symbylu i ymateb i geisiadau'n gyflym.

x) bod y Cynulliad yn cloriannu manteision ac anfanteision yn drylwyr yr opsiynau ar gyfer ariannu contract Merlin, gan ofalu bod y penderfyniad terfynol yn rhoi gwerth am arian.

xi) bod y berthynas weithredol effeithiol rhwng y Cynulliad a'r contractiwr yn parhau gyda Merlin, a bod perthynas strategol fwy effeithiol yn ei chryfhau.

xii) bod y contract â Merlin yn datblygu gwasanaethau mwy gwahaniaethol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr unigol, a'u bod yn chwilio am ffyrdd o fewn y bartneriaeth i glywed barn defnyddwyr, er mwyn darparu cynnyrch sy'n cwrdd â'u hanghenion yn well.

xiii) bod proses gloriannu ac adolygu yn cael ei datblygu o'r dechrau yn rhan annatod o drefniadau'r Cynulliad ar gyfer rheoli'r contract â Merlin. a

xiv) bod cyfrifon agored yn cael eu defnyddio yn y contract â Merlin, wedi'u cysylltu â mecanweithiau i rannu elw. Yn ein barn ni, mae cadw cyfrifon agored a'u cysylltu â mecanweithiau i rannu elw yn hanfodol i gael bargen dda o gontractau PFI.

## Sylwadau clo

32. Mae stori Osiris yn dangos manteision ac anfanteision arwyddo contract â phartner yn y sector preifat. Cafodd y system wreiddiol ei rhoi ar waith yn gyflym ac roedd y contract estynedig yn barod mewn pryd ar gyfer agor y Cynulliad - amserlen dynn iawn iawn. Mae pobl o rannau eraill y Deyrnas Unedig a thu hwnt yn edrych ag eiddigedd ar ein system ni. Er bod gwasanaethau Osiris ar y cyfan wedi bod o safon dda, mae arafwch y cysylltiad â defnyddwyr-o-bell (nid bai Osirir ei hun yw hun) yn fater y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef er mwyn i'r Cynulliad allu gweithio'n well.

33. Er bod y contract gwreiddiol ag Osiris yn fargen dda i'r Swyddfa Gymreig, collodd ei apêl pan gafodd ei ymestyn i gwrdd ag anghenion ychwanegol y Cynulliad Cenedlaethol newydd. Bu'n rhaid i'r tîm trafod wynebu set anodd iawn o amgylchiadau. Mae'n anodd dychmygu y gallai unrhyw beth tebyg godi eto. Gwnaethant lwyddo i argyhoeddi SBS i ostwng eu cynnig gwreiddiol yn sylweddol, ond ni wnaethant ragweld cymaint o bobl fyddai'n defnyddio'r system. O ganlyniad, mae'r Cynulliad wedi talu mwy nag y byddai wedi'i wneud fel arall. I wneud y sefyllfa'n waeth, roedd y contract yn anhyblyg a chan hwnnw oedd y cyntaf o'i fath, ni welwyd manteision rhai o'r mecanweithiau a geir mewn contractau PFI mwy diweddar sy'n diogelu'r sector cyhoeddus yn well.

34. Mae llywodraeth fodern yn dibynnu ar ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol. Mae contract Osiris wedi cyfrannu at y broses hon yng Nghymru. Mae'r contract newydd â Merlin yn gyfle euraid i'r Cynulliad ddefnyddio'r gwersi niferus a ddysgwyd wrth ddefnyddio Osiris i ddatblygu contract a fydd yn rhoi mwy o werth am arian ac yn gwella ansawdd y gwasanaeth. Yn fwy na dim, disgwylwn gontract a gwasanaeth mwy hyblyg a bydd arfarniad buddsoddi mwy soffistigedig wedi'i gynnal cyn arwyddo'r contract i ddiogelu

buddiannau'r Cynulliad yn well. Bydd y contract ei hun yn rhannu risg ac elw'n effeithiol o dan amgylchiadau sy'n newid. Yn ein barn ni, i gael gwerth ein harian, rhaid wrth system cyfrifon agored a mecanweithiau ar gyfer rhannu elw.

**Atodiad B**

Ms Claire Bennett
Clerc y Pwyllgor Archwilio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

**20 Rhagfyr 2002**

**SESIWN Y PWYLLGOR ARCHWILIO: DYDD IAU 21 TACHWEDD 2002 "OSIRIS: Y CONTRACT MENTER CYLLID PREIFAT (PFI) AR GYFER TECHNOLEG GWYBODAETH YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU"**

**Ymhellach at sesiwn y Pwyllgor ar 21 Tachwedd, ysgrifennaf â gwybodaeth ychwanegol ar nifer o faterion.**

## Gweithdrefnau a ddefnyddiwyd wrth baratoi contract OSIRIS

Rheolwyd prosiect caffael OSIRIS gan ddefnyddio methodoleg PRINCE. Dyma'r fethodoleg safonol ar y pryd ar gyfer prosesau caffael TG y Llywodraeth. Roedd cynrychiolwyr o ddau brif faes busnes y Swyddfa Gymreig ar Fwrdd y Prosiect, yn ogystal â'r Grŵp Cyllid a'r Asiantaeth Ganolog ar gyfer Cyfrifiaduron a Thelegyfathrebu [sydd bellach yn rhan o Swyddfa Masnach y Llywodraeth]

Roedd y Swyddfa Gymreig, drwy ei threfniadau â'r CCTA, yn cyflogi cymorth arbenigol cyfreithiol, technegol ac ariannol o gyfnod cynnar. Roedd Uned TG Ganolog Swyddfa'r Cabinet yn darparu cyngor ar PFI.

Nid oedd defnyddio Cymharydd Sector Cyhoeddus yn rhan o'r canllawiau safonol ar gyfer gwerthusiad buddsoddi (Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi) a ddefnyddiwyd pan gafodd yr achos busnes gwreiddiol ei baratoi ym 1993-94. Roedd y canllawiau'n argymell defnyddio cymhariaeth o'r opsiynau posibl drwy gyfrwng gwerthusiad buddsoddi. Lluniwyd hon gyda help cynghorwyr Trysorlys Ei Mawrhydi ar Achosion Busnes TG. Dim ond ym 1997 y daeth defnyddio Cymharydd Sector Cyhoeddus yn orfodol.

**Cydrannau cynnig gwreiddiol SBS ar gyfer y contract a ail-negodwyd**

Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion unrhyw gydrannau cost y penderfynwyd eu hepgor o gynigion costau gwreiddiol Siemens Business Services (SBS) ar gyfer y contract a ail-negodwyd. Roedd y Pwyllgor yn codi'r cwestiwn hwn yng nghyd-destun cyfeiriad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol at ddwy gost - cost amser cyfarwyddwyr SBS a chost arian bonws i staff, a oedd yn gynwysedig ym model terfynol y costau ond nad oedd yn gynwysedig yng Nghynnig Gorau a Terfynol y Cwmni ar gyfer y contract gwreiddiol.

Er mai elfen fach o'r gost gyffredinol yn y contract a gafodd ei ail-negodi oedd y rhain, roedd Siemens yn eu hystyried yn elfennau arwyddocaol i'w hepgor o gostau gwreiddiol y contract ac nid oeddent yn barod i'w dileu. Ni chafodd unrhyw gostau penodol eu gollwng o'r cynigion gwreiddiol a ail-negodwyd ar gyfer y costau. Rhaid ystyried hyn, fodd bynnag, yng nghyd-destun y gostyngiad yn y costau o fwy na 30 y cant y llwyddodd swyddogion y Swyddfa Gymreig ei negodi ar gyfer sefyllfa gychwynnol Siemens. Roedd y gostyngiad yn talu am gydrannau cost allweddol megis cyflogau a chostau cysylltiedig; costau caledwedd a meddalwedd gan gynnwys gwaith cynnal a chadw; ac elw.

**Gwasanaeth Desg Gymorth y Tu Allan i Oriau Gwaith ar gyfer yr Aelodau**

Addewais nodi union amser y penderfyniad i ddirwyn y Gwasanaeth Cymorth i ben.

Cymeradwyodd Is-grwp TG Pwyllgor y Tŷ (ITSG) gynnig i dreialu gwasanaeth cymorth y tu allan i oriau gwaith ym mis Mawrth 2001. Byddai'r gwasanaeth hwn yn rhoi cymorth y tu allan i oriau gwaith i holl Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth rhwng 18:30 - 20:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 09:00 - 17:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Cost y gwasanaeth hwn fesul awr oedd £7.76.

Cyhoeddwyd bod y gwasanaeth ar gael i bob Aelod o'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2001. Anfonwyd nodyn yn eu hatgoffa am y Gwasanaeth ar 9 Tachwedd 2001.

Yn ei gyfarfod cyntaf ar 22 Tachwedd 2001 penderfynodd yr ITSG, yn amodol ar adborth gan yr Aelodau, y byddai'r Gwasanaeth yn cael ei ddileu ddiwedd mis Rhagfyr 2001. Serch hynny, parhaodd y Gwasanaeth yn 2002 oherwydd bod yr adborth yn dangos bod y Ddesg Gymorth wedi derbyn dwy alwad.

**Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor ddiwedd Ionawr 2002, cytunwyd y dylid parhau â'r cynllun peilot ac y byddai'r Ddesg Gymorth yn cofnodi nifer y ceisiadau am gymorth a dderbynnir.**

Anfonwyd dau nodyn arall ym mis Mawrth a mis Mai 2002 yn atgoffa'r defnyddwyr bod y Gwasanaeth ar gael. Ym mis Medi 2002, gan na chafwyd unrhyw alwadau pellach, penderfynodd Swyddfa'r Llywydd ddileu'r Gwasanaeth.

**Jon Shortridge**

**Atodiad C**

Y PWYLLGOR ARCHWILIO

*Mae pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio'n gywir ac yn drylwyr*. Yn fras, rôl y Pwyllgor Archwilio fydd yw ymchwilio i'r adroddiadau ar gyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad wrth ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Rheol Sefydlog 12.

Dyma aelodaeth y Pwyllgor a benodwyd 21 Mawrth 2002

Dafydd Wigley  (Plaid Cymru) - Cadeirydd

Alun Cairns (Ceidwadwr)

Janet Davies (Plaid Cymru)

Jocelyn Davies (Plaid Cymru)

Alison Halford (Llafur)

Val Lloyd (Llafur)

Janice Gregory (Llafur)

Ann Jones (Llafur)

Eleanor Burnham  (Democrat Rhyddfrydol)

Gellir cael gwybodaeth bellach am y Pwyllgor gan:

Claire Bennett
Clerc y Pwyllgor Archwilio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 02920 898155
E-bost: audit.comm@wales.gsi.gov.uk